

Croeso i Gaerwys hanesyddol y dref leiaf gyda Siarter Brenhinol yn y Deyrnas Unedig, a roed yn 1290. Ar y map mae adeiladau a llefydd, rhai gyda phlaciau a phob un â nodiadau disgrifiadol. Gellir eu hymweld gan ddilyn "Taith Tref Caerwys" (dotiau) gan ddechrau o sgwâr y dref lle welwch blac mawr ar y wal. Mae mwy o fanylion am yr adeiladau i'w gweld ar [www.Caerwystown.com](http://www.Caerwystown.com) ac hefyd gellir lawrlwytho "Darganfod Caerwys". Mae "Caerwys Hanes o Ddyddiau Victoria" a ysgrifennwyd yn 2012 ar gael gan Gymdeithas Hanes Caerwys. Mae newyddion i'w cael yn y Caerwys Chronicle. O amgylch sgwâr mae Will's News, siop bapur a chyffredinol, Morgan's Pori Gwych (deli, cigydd a Swyddfa Bost), Fferyllfa Caerwys a Caerwys Stores. Gweinir bwyd yn y Piccadilly (01352 720284) Y Royal Oak (01352 720269) Clwb Golf Caerwys (01352 721222) Y Cherry Pie (01352 7412790) On The Corner (01352 721809) ac Edenshine restaurant (01352 720797) o fewn Canolfan Grefftau, Afonwen.

Mae'r amseroedd yn amrywio Noddyd cynhrchiad y daflen hon a'r placiau gwyrdd newydd gan Cadwyn Clwyd a rhoddion gan Gyngor Tref Caerwys, Cymdeithas Dinesig Caerwys, Y Caerwys Chronicle, a Chymdeithas Hanes Caerwys. Cynhyrwyd y daflen gan [www.illustrativemapping.co.uk](http://www.illustrativemapping.co.uk). Gwaed y placiau gan Croft Cast Signs a'u gosod gan Hafod, busnes lleol. Cyllidwyd Placiau a Thafien Caerwys trwy brosiect Arloesi Sir y Fflint Cadwyn Clwyd, sy'n cael ei ariannu fel rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.



### 1 Sgwâr y Dref

Mae'r sgwâr yng nghanol tref Caerwys dan drem coeden a blawd yn 1968. Dyma'r engraifft diweddaraf o'r Goeden Heddwch a blannwyd yn wreiddiol yn 1919 i ddynodi diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Safodd y goeden fawr am lawer o flynyddoedd ar ganol y ffyrdd yng Nghaerwys a bu rhaid ei symud yn y 1960au i hwyluso rhediad traffig. Dyma'r goeden a ddarlunnir ar ben glawr y daflen.



### 2 Lleoliad yr hen farchnad

Ers dyddiau'r canol oesoedd bu Caerwys yn gartref i farchnadoedd gwerthu anifeiliaid a chynnyrch amaethyddol. Y Smithfield, neu'r Crown Field gynt am ei fod yn agos i dafarn y Crown, oedd lleoliad mwyaf diweddar y farchnad. Erbyn hyn dyma Llys y Goron, tai gwarchoddedig cymunedol ein henoed.



### 3 Piccadilly Inn

Ar un adeg roedd y Piccadilly, sydd efallai yn dyddio o 1622, yn eiddo i Arglwydd Mostyn, a oedd yn ddilynwr mawr o rasmus ceffylau. Enillodd un o'i geffylau, Piccadilly, râs ar hen Gae Râs Treffynnon ger Babel. Rhoddodd Arglwydd Mostyn y tafarn i'r joci fel gwobr ac fe enwodd ar ôl y ceffyl buddugol.



### 4 Y Lloc

Mae'r Lloc yn adeilad rhestredig, gradd 2, a godwyd ym mlynnyddoedd diweddaraf y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddal anifeiliaid crwydredig o'r marchnadoedd tan ddaeth eu perchenogion i'w hawlio. Mae'r Lloc yn adeilad eithriadol sy'n dal i fodoli, ac yn cynrychioli pwysigrwydd Caerwys gynt fel tref marchnadol. Mae sôn hefyd iddo ddal cyfeddachwyr meddw.



### 5 Ysgol Gyntaf Caerwys

Dechreuwyd addysg ffurfiol yng Nghaerwys yn 1813 yn y bwthyn bach yma. Fe'i nodwyd gyda chymorthdal oddi wrth Cymdeithas Cenedlaethol Ysgolion, gan rieni a thirfeddianwyr lleol. Roedd angen ysgol fwy erbyn 1833 ac agorwyd yr ysgol bresennol, Ysgol yr Esgob, yn 1983.

Awgrymiad o'r ffordd gerdded

2 Taith y placiau gwyrdd

### 6 Bell House

Mae'r Tŷ Gloch yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg a gwelir y llawr cerrig crynion gwreiddiol yn yr islawr. Daw'r enw oddi wrth y gloch a osodwyd mewn cilfach yn y wal sy'n edrych dros y sgwâr. Fe'i ganwyd i arwyddo agor y farchnad a phan oedd gorymdaith angladdol yn mynd heibio. Nid yw'r gloch yno mwyach.



### 13 Yr Hen Garchardy

Hyd at 1840 dyma leoliad carchardy a gysylltwyd gan dwnel i'r Henlllys. Credir i'r twnel ddymchwel rhwng 1915 a 1920.

### 7 Yr Henllys

Nid yw talwyneb Fictoraidd 1850 Yr Henllys yn arddangos ei hanes cyfoethog a'i ran yng nghyfundrefn cyfreithiol Gogledd Cymru dros y canrifoedd. Adeiladwyd gan Arglwyddi Mostyn, o'r canol oesoedd hyd at 1672, gweinyddwyd cyfiawnder oddi yma gan y Llys Brawdlys. Cynhaliwyd Llys Ynadon yma ar brydiau tan 1869.



### 10 Marian Luce

Credir i'r Marian Luce gael ei enwi ar ôl Luce, merch ifanc a gafwyd yn euog o lofrudd yn anheg, a chafodd ei chrogi yno. Cafwyd hi'n ddi-fai deng munud rhy hwy'r i'w hachub o'r grogbren. Hanes chwedlonol yw hyn; ai Luce, Lucy neu Marian Lucy Davies oedd hi, merch y tafarnwr yr oedd yn ei amddiffyn?



### Eglwys Sant Mihangel

Mae'n debyg y sefydlwyd Eglwys Sant Mihangel yn yr wythfed ganrif, ond adeiladwyd y tŵr a'r corff yn y drydedd ganrif ar ddeg. Mae'n anghyffredin i gael dau borth mynwent, yr hynaf gyda ffrâm derw o'r cyn-ddiwygiad a'r llall a godwyd i ddathlu Jiwbilli Aur Brenhines Fictoria.



### 8 Rheithordy

Dyma man geni Angharad Llwyd, yr hanesydd nodedig Cymraeg, merch i'r Parch John Lloyd a fu'n rheithor yma o 1778 tan ei farwolaeth yn 1793. Gadawodd y tŷ yn waddol i'r eglwys a bu'n gartref i reithorion y plwyf am flynyddoedd lawer

### 9 Y Ganolfan Goffa

Adeiladwyd y Ganolfan Goffa'r Rhyfel gan ddefnyddio tanygriffiaid cyhoeddus, fel goffhad i'r dynion lleol a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Rhoddwyd y tir i Gaerwys gan Syr John Herbert Lewis, aelod o senedd rhyfel Lloyd George a gwleidydd Rhyddfrydol enwog.



### 11 Capel Bethel

Agorwyd Capel Bethel yn gyntaf yn 1810 ac yna fe'i unwyd â'r Capel Presbyteriaid Saesneg o fewn un adeilad. Dyma'r unig gapel gweithredol ar ôl yng Nghaerwys. Yn y gorffennol bu'r capeli Cymraeg yng Nghaerwys yn allweddol i hyrwyddo traddodiadau diwylliannol o fewn y dref, yn trefnu corau, eisteddfodau a darlithoedd ac yn hybu'r iaith Gymraeg.



# Darganfod Taith Tref Caerwys

